**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG**

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODWCH:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig:** | Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol 2027 – 2032 |
| **Adran** | TGCh a Digidol |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Tim Jones |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg** | Emma Williams |
| **Cyfeiriad e-bost** | emma.j.williams@rctcbc.gov.uk |
| **Rhif ffôn** | 07385 401980 |
| **Disgrifiad cryno** | Nod Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol 2027–2032 yw defnyddio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, technoleg ddigidol, data dibynadwy a sgiliau gwell i wneud gwasanaethau'r Cyngor yn symlach, yn fwy cynhwysol, yn ddiogel ac yn effeithlon. |
| **Dyddiad** | 14/10/26 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio. (Defnyddwyr Gwasanaethau, Gweithwyr, y Gymuned Ehangach)** | Defnyddwyr Gwasanaeth, Gweithwyr, Aelodau, Ymwelwyr, y Gymuned Ehangach |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Nod y Strategaeth yw defnyddio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, technoleg ddigidol, data dibynadwy a gallu digidol gwell i wneud gwasanaethau'r Cyngor yn symlach, yn fwy cynhwysol, yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae'n cefnogi'r Gymraeg drwy sicrhau bod gwasanaethau a chynnwys digidol wedi'u cynllunio'n ddwyieithog, yn bodloni Safonau'r Gymraeg ac yn darparu profiad yr un mor hygyrch ac effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hefyd yn hyrwyddo dewis iaith, cynhwysiant a defnydd hyderus o'r Gymraeg ar draws sianeli i gwsmeriaid a'r gweithlu.<br>Bydd yn cael ei gyflwyno ar draws pedair thema:<br>• Profiad Cwsmeriaid<br>• Datrysiadau Digidol a Thechnoleg<br>• Data, Mewnwelediad a Deallusrwydd<br>• Pobl a Gallu Digidol |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Trigolion, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, aelodau etholedig, busnesau ac ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg; dysgwyr Cymraeg; cymunedau addysg cyfrwng Cymraeg; grwpiau cymunedol a sefydliadau partner; a phobl sy'n well gyda nhw gael mynediad at wybodaeth, cymorth a gwasanaethau digidol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg, neu sydd angen y mynediad hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | Ym mis Medi 2026, roedd 13.27% o staff y Cyngor yn siarad Cymraeg, ac mae'r polisi a gymeradwywyd yn ddiweddar ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg yn ceisio cynyddu'r ganran hon yn barhaus, gan sicrhau bod gan staff gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn y gwaith os mai dyna eu dewis. Bydd |

| | |
|---|---|
| | gweithredu'r strategaeth hon yn cyfrannu at y canlyniadau hyn, sydd hefyd yn cael eu rhannu gan gyrff ar lefel genedlaethol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru.<br><br>Yn 2025, roedd arolwg a gynhaliwyd gan garfan RhCT Gyda'i Gilydd y Cyngor yn dangos fod 41.2% o'r bobl yn y fwrdeistref sirol a gymerodd ran yn yr arolwg eisiau rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ddysgu'r Gymraeg. Gallai'r strategaeth hon hefyd helpu i gynnig y cyfleoedd hynny i'r unigolion sydd eu heisiau, drwy roi mwy o hyder i bobl ryngweithio â'r Cyngor yn y Gymraeg. |

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid ei gwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld trwy glicio yma.

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr.<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol drwy gynyddu cyfleoedd i drigolion, ymwelwyr, aelodau etholedig a staff ddefnyddio'r Gymraeg drwy wasanaethau digidol, cynnwys ar-lein, sianeli cyswllt i gwsmeriaid ac offer yn y gweithle sy'n ddwyieithog. Bydd gwasanaethau'n cael eu | Mae'r Strategaeth yn ymrwymo i wasanaethau a chynnwys digidol dwyieithog hygyrch, dewis priodol o ran sianel, cymorth cynorthwyol a chymorth nad yw'n ddigidol, a datrysiadau sydd wedi'u hoptimeiddio ar gyfer y Gymraeg. Mae ei themâu Profiad Cwsmeriaid a Phobl a | Sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hymgorffori wrth ddylunio, caffael, profi ac adolygu pob gwasanaeth digidol o'r cychwyn cyntaf. Darparu cynnwys a theithiau cwsmeriaid sydd yr un mor hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg, hyrwyddo'r opsiwn |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynllunio fel bod modd i bobl ddewis y Gymraeg drwy gydol eu rhyngweithio â'r Cyngor, gyda chynnwys hygyrch Cymraeg a chymorth cynorthwyol neu gymorth nad yw'n ddigidol ar gael lle bo angen. Bydd sgiliau digidol, darpariaeth y Gymraeg a gallu staff hefyd yn helpu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth gael mynediad at wasanaethau ac yn y gwaith. | Gallu Digidol hefyd yn cynnwys dylunio gwasanaethau cynhwysol, sgiliau a chymorth i'r gweithlu, gan ddarparu sail glir ar gyfer cynyddu cyfleoedd i drigolion, ymwelwyr, siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau ac yn y gwaith.<br><br>Ymgysylltu â phartneriaid – rydyn ni wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'n partneriaid i sicrhau bod y Gymraeg ar gael yn eu technoleg. Dyma rai enghreifftiau: Microsoft, Enghouse<br>Llywodraeth Cymru – Cynllun Technoleg Cymraeg<br>Ymgynghoriad Strategaeth Staff y Cyngor - (ar gael yn dilyn ymgynghoriad)<br>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>Cymunedau Digidol Cymru<br>Swyddfa Prif Swyddog Digidol Cymru (Llywodraeth Leol)<br>SOCITM Cymru<br>Llywodraeth Cymru | Cymraeg yn glir ar draws pob sianel, cynnwys defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg wrth ddylunio a phrofi gwasanaethau, a darparu'r offer, yr arweiniad a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar staff i ddarparu gwasanaethau a gweithio'n hyderus yn y Gymraeg. Monitro defnydd, adborth ac ansawdd gwasanaeth yn ôl iaith a defnyddio'r canfyddiadau i fynd i'r afael â rhwystrau a chynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio.<br><br>Sicrhau bod gan adrannau perthnasol ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg drwy arferion recriwtio cadarn a gweithredu'r Polisi ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth Hybu'r Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Mae disgwyl i'r Strategaeth gael effaith alluogi gadarnhaol ar nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg. Er na fydd yn creu siaradwyr newydd yn uniongyrchol, bydd yn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy, hygyrch ac ymarferol i'w defnyddio drwy wasanaethau digidol dwyieithog, offer yn y gweithle, cymorth dysgu a sianeli y mae'r gymuned yn eu defnyddio. Bydd modd i hyn helpu siaradwyr Cymraeg i gynnal a chynyddu eu defnydd o'r iaith, rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer, a chefnogi plant a phobl ifainc sy'n symud o addysg cyfrwng Cymraeg i astudiaethau pellach, cyflogaeth a bywyd bob dydd yn y gymuned. Felly mae'n cyfrannu | Mae'r Strategaeth yn ymrwymo i wasanaethau digidol dwyieithog a hygyrch, datrysiadau sydd wedi'u hoptimeiddio ar gyfer y Gymraeg, dewis o'r Gymraeg ar draws sianeli i gwsmeriaid, cynhwysiant digidol, a sgiliau a chymorth gwell i'r gweithlu. Mae'r ymrwymiadau hyn yn creu rhagor o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith ac i ddysgwyr ei hymarfer drwy wasanaethau'r Cyngor, cyflogaeth a gweithgareddau yn y gymuned. Mae hyn yn cefnogi amcan Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 5%, er mai cyfraniad y Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol fydd galluogi, a dylid ei asesu trwy nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, sgiliau | Ymgorffori gofynion y Gymraeg mewn cynlluniau gwasanaeth digidol a defnyddio gwasanaethau dwyieithog, offer yn y gweithle a sianeli i'r gymuned er mwyn creu rhagor o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg. Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymraeg, y gyfadran addysg a phartneriaid cymunedol i hyrwyddo gwasanaethau digidol Cymraeg a chefnogi dilyniant o addysg cyfrwng Cymraeg i gyflogaeth a defnydd bob |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | at nod Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor o gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 5% a datblygu Rhondda Cynon Taf fel sir sy'n gwbl ddwyieithog. | a hyder staff, ymgysylltiad dysgwyr a data perthnasol cyfrifiad lleol neu arolygon.<br><br>Ymgysylltiad â phartneriaid:<br>Llywodraeth Cymru – Cynllun Technoleg Cymraeg<br>Ymgynghoriad Strategaeth Staff y Cyngor - (ar gael yn dilyn ymgynghoriad)<br>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>Cymunedau Digidol Cymru<br>Swyddfa Prif Swyddog Digidol Cymru (Llywodraeth Leol)<br>SOCITM Cymru<br>Llywodraeth Cymru | dydd. Monitro nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, sgiliau a hyder staff, ymgysylltiad dysgwyr a data perthnasol cyfrifiad neu arolygon, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i dargedu gwelliannau a dangos cyfraniad y Strategaeth at amcan twf o 5% y Cyngor. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n rhagweithiol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser. | Cadarnhaol | Bydd gan y Strategaeth effaith gadarnhaol drwy godi gweledd a statws y Gymraeg ar draws gwasanaethau digidol y Cyngor, sianeli i gwsmeriaid ac offer yn y gweithle. Bydd opsiynau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n glir ac yn rhagweithiol, yn hytrach na'u cynnig ar gais yn unig, gan annog trigolion, ymwelwyr a staff i ddewis a defnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau bob dydd â'r Cyngor, yn y gwaith ac yn y gymuned. Drwy ddarparu gwasanaethau Cymraeg | Mae'r Strategaeth yn ymrwymo i wasanaethau digidol dwyieithog, hygyrch a chynhwysol, datrysiadau sydd wedi'u hoptimeiddio ar gyfer y Gymraeg, a dewis cwsmeriaid ar draws sianeli digidol, sianeli â chymorth a sianeli nad ydyn nhw'n ddigidol. Mae hefyd yn hybu hyder digidol a gallu'r gweithlu, gan gynnwys offer, canllawiau a hyfforddiant i staff. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnig cyfleoedd clir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn weithredol, gwneud opsiynau Cymraeg yn fwy gweladwy ac yn haws i'w defnyddio, ac annog | Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol a gwneud yr opsiwn Cymraeg yn glir ac yr un mor amlwg ar draws gwefannau, ffurflenni ar-lein, cyfathrebiadau â chwsmeriaid, sianeli â chymorth ac offer yn y gweithle. Defnyddio ymgyrchoedd, canllawiau staff ac ymgysylltu â'r gymuned i annog trigolion, ymwelwyr a gweithwyr i ddewis y Gymraeg. Cynnwys siaradwyr Cymraeg a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hygyrch, cyfatebol a hawdd eu defnyddio, gyda chefnogaeth cynhwysiant digidol a gallu staff, dylai hyn feithrin hyder, normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a helpu i gynyddu'r galw dros amser. | trigolion, ymwelwyr a staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd. Mae modd monitro defnydd, ansawdd gwasanaeth ac adborth i ddangos a yw ymwybyddiaeth, hyder a galw yn cynyddu dros amser.<br><br>Ymgysylltiad â phartneriaid:<br>Llywodraeth Cymru – Cynllun Technoleg Cymraeg<br>Ymgynghoriad Strategaeth Staff y Cyngor - (ar gael yn dilyn ymgynghoriad)<br>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>Cymunedau Digidol Cymru<br>Swyddfa Prif Swyddog Digidol Cymru (Llywodraeth Leol)<br>SOCITM Cymru<br>Llywodraeth Cymru | dysgwyr yn y gwaith dylunio a phrofi, monitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, cyfraddau cwblhau, ansawdd y gwasanaeth ac adborth yn ôl iaith, a defnyddio'r canfyddiadau i gael gwared ar rwystrau, gwella profiad y defnyddiwr Cymraeg a chynyddu'r galw dros amser. |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cefnogi cydymffurfiaeth gadarnhaol â Safonau Statudol y Gymraeg drwy ymgorffori gofynion y Gymraeg yn nyluniad a darpariaeth gwasanaethau digidol, systemau ac offer yn y gweithle. Bydd gwasanaethau Cymraeg ar gael a fyddan nhw ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y cynnwys, ymarferoldeb, ansawdd a mynediad yn gyfatebol; bydd gohebiaeth yn y Gymraeg a dewisiadau iaith yn cael eu cefnogi; a bydd sianeli cyswllt yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan drigolion, ymwelwyr a staff. | Mae'r Strategaeth yn ymrwymo'n benodol i wasanaethau digidol dwyieithog, hygyrch a chynhwysol; datrysiadau sydd wedi'u hoptimeiddio ar gyfer y Gymraeg; dewis priodol i gwsmeriaid ar draws sianeli digidol, sianeli â chymorth a sianeli nad ydyn nhw'n ddigidol; a sgiliau a chymorth i'r gweithlu. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau fodloni Safonau'r Gymraeg ac yn ymgorffori ystyriaethau o ran diogelwch, hygyrchedd a'r Gymraeg wrth ddylunio a chaffael gwasanaethau. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu | Ymgorffori Safonau'r Gymraeg perthnasol yn rhan o waith llywodraethu digidol, dylunio gwasanaethau, caffael a chontractau cyflenwyr. Cofnodi a chadw dewisiadau iaith defnyddwyr, sicrhau bod gohebiaeth, cynnwys ar-lein, ffurflenni, rhyngwynebau a theithiau cwsmeriaid yn y Gymraeg ar gael i safon gyfatebol a heb unrhyw oedi, a phrofi fersiynau Cymraeg a Saesneg cyn lansio ac ar ôl newid sylweddol. Rhoi |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd penderfyniadau'n ymwneud â pholisi a dylunio gwasanaethau yn ystyried eu heffaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | gwasanaethau Cymraeg sy'n gyfatebol o ran argaeledd, ymarferoldeb, ansawdd a rhwyddineb mynediad, gan alluogi trigolion a staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu trafodaethau â'r Cyngor ac yn y gwaith.<br><br>Ymgysylltiad â phartneriaid:<br>Llywodraeth Cymru – Cynllun Technoleg Cymraeg<br>Ymgynghoriad Strategaeth Staff y Cyngor - (ar gael yn dilyn ymgynghoriad)<br>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>Cymunedau Digidol Cymru<br>Swyddfa Prif Swyddog Digidol Cymru (Llywodraeth Leol)<br>SOCITM Cymru<br>Llywodraeth Cymru | canllawiau clir i staff, yn ogystal ag offer dwyieithog a llwybrau i gymorth o ran y Gymraeg; asesu penderfyniadau polisi o ran eu heffaith ar y Gymraeg; a monitro argaeledd, amseroedd ymateb, ansawdd, cwynion a defnydd yn ôl iaith, gan dynnu sylw at fylchau trwy drefniadau llywodraethu a chydymffurfiaeth y Cyngor. |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | | | | |

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? Allai darpariaeth arall gael ei defnyddio? Ble dylai'r ddarpariaeth fod?

| Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| • Ymgorffori gofynion y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn y broses o ddylunio, caffael, ffurfweddu, profi ac adolygu'r holl wasanaethau digidol, systemau ac offer yn y gweithle. | Yn rhan o gynllun gweithredu sy'n amodol ar gymeradwyo'r Strategaeth | Pennaeth Trawsnewid Digidol |
| • Darparu teithiau cwsmeriaid, cynnwys, ymarferoldeb, ansawdd a mynediad sy'n gyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws sianeli digidol, sianeli â chymorth a sianeli nad ydyn nhw'n ddigidol. | Yn rhan o gynllun gweithredu sy'n amodol ar gymeradwyo'r Strategaeth | Pennaeth Trawsnewid Digidol |
| • Cynnwys staff sy'n siarad Cymraeg a staff sy'n dysgu Cymraeg wrth ddylunio gwasanaethau a phrofi defnyddwyr, a gweithredu ar eu hadborth. | Yn rhan o gynllun gweithredu sy'n amodol ar gymeradwyo'r Strategaeth | Pennaeth Gweithrediadau TGCh |
| • Darparu offer, canllawiau a hyfforddiant dwyieithog i staff, a monitro argaeledd, defnydd, ansawdd gwasanaeth ac adborth y Gymraeg er mwyn nodi a chael gwared ar rwystrau. | Yn rhan o gynllun gweithredu sy'n amodol ar gymeradwyo'r Strategaeth | Pennaeth Trawsnewid Digidol |
| • Ymgysylltu parhaus â chyflenwyr systemau presennol y Cyngor i chwilio am gyfleoedd i wella eu datrysiadau er budd y Gymraeg | Yn rhan o gynllun gweithredu sy'n amodol ar gymeradwyo'r Strategaeth | Pennaeth Gweithrediadau TGCh |

| Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl eu rhoi ar waith, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu. | |
|---|---|
| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
| Dydy rhai systemau digidol ddim yn darparu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, neu dydyn nhw ddim yn darparu'r gallu hwnnw'n llawn. | Efallai na fydd cyflenwyr meddalwedd yn cefnogi'r Gymraeg nac yn bwriadu ymgorffori'r Gymraeg yn eu cynigion.<br>Lle bynnag y bo modd, byddwn ni'n gweithio gyda'r cyflenwyr i sicrhau cydymffurfiaeth lawn dros amserlen y cytunwyd arni, gan bwysleisio iddyn nhw fod hwn yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru.<br>Mae proses gaffael y Cyngor yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg a deddfwriaeth berthnasol arall yn y maes lle bo modd. |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at wasanaethau Cymraeg – SwyddogIaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Arwyddocaol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddaru'r rhannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| Sylwadau Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor | Dyddiad Ystyried y Cynnig | Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. |
|---|---|---|
| Diolch yn fawr iawn am gwblhau'r asesiad effaith hwn ar gyfer y Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol. Mae'n cydnabod yn briodol fod gan y strategaeth y potensial i gael effaith fawr ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg i ryngweithio â gwasanaethau'r Cyngor, a nifer y staff sy'n defnyddio systemau mewnol yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cydnabod y bydd dylunio dwyieithog o'r cychwyn cyntaf yn allweddol i unrhyw lwyddiant yn hyn o beth, a bod cynyddu hyder defnyddwyr gyda 'rhyngwynebau' Cymraeg yn bwysig i gynyddu'r defnydd o wasanaethau yn y Gymraeg. I'r perwyl hwnnw, wrth weithredu'r strategaeth byddai'n ddefnyddiol manteisio ar y cyfle i weithio gyda'r | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymraeg a Chyfathrebu/Dylunio ar waith hyrwyddo, naill ai gyda staff neu gyda'r cyhoedd (neu'r ddau), i hybu'r defnydd o'r gwahanol wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn y Gymraeg. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r Polisi newydd ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, a nodau cenedlaethol ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac yn y gweithle. | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

| **Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
|---|
| |

| **Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau o ran y Cynnig** |
|---|
| Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad. |
| *Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -* |

| **Cam 7 – Cymeradwyo** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | | **Enw Cyfarwyddwr y Gwasanaeth:** | |
| **Swydd** | | **Rydw i'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw addasiadau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u nodi** |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg** |
| **Llofnod** | | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | |
| **Dyddiad** | | **Dyddiad** | |

RHONDDA CYNON TAF